

Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol o'r maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant â'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio yn y sector.

Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn addysg bellach sydd:

- â diddordeb mewn gweithio mewn rôl gefnogol yn y sector gofal plant
- yn astudio, neu sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- dychwelyd i'r gweithle ar ôl seibiant gyrfa ac am fireinio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y sector gofal plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant neu sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1.

Dysgwyr sydd heb gyflawni cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd eto: Cyngorir yn gryf y dylid gwneud cymwysterau craidd cyn neu ar y cyd â'r cymhwyster hwn.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu?

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n cyfuno unedau ymarfer sy'n cael eu hasesu yn y gweithle gyda gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn adlewyrchu lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Ymhlith y testunau fydd:

- cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad
- cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar
- ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl
- iechyd, llesiant a datblygiad plant, 0-19 mlwydd oed a ffactorau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad
- rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 280 awr o leoliad gwaith er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn.

Strwythur y cymhwyster a dulliau asesu

Mae'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn seiliedig ar gredydau ac mae'n caniatáu i ddysgwyr gyfuno unedau gorfodol gydag amrywiaeth eang o unedau dewisol yn dibynnu ar eu lleoliad gwaith neu ddyheadau gyrfa yn y dyfodol.

Yr unedau sy'n seiliedig ar ymarfer gorfodol yw:

Rhif yr Uned	Teitl yr Uned	Asesu	Credyd
200	Cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant	Mewnol	14
201	Cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad	Mewnol	4
202	Cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar	Mewnol	4
203	Ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl	Mewnol	3
ac o leiaf un o'r canlynol:			
204	Cefnogi gofal plant 0-2 oed	Mewnol	3
205	Cefnogi gofal plant 2-3 oed	Mewnol	3
206	Gweithio gyda phlant 3-7 oed	Mewnol	4
Yr uned theori orfodol yw:			
216	Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Allanol	5

Asesir y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori trwy 90% o asesiad mewinol a 10% o asesiad allanol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth â'u haseswr
- arholiad allanol (gan asesu cynnwys o Uned 216).

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion yr asesiad o'r dogfennau allweddol a'r tab deunyddiau ategol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Bydd cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn caiatáu i ddysgwyr weithio dan oruchwyliaeth fel gweithiwr Lefel 2 Gofal Plant cymwysedig. Gall dysgwyr hefyd ddewis symud ymlaen i'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 TAG mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu lechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru